**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol**
**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**
**General Certificate of Education**
**Advanced Subsidiary/Advanced**

583/51

**CYMRAEG – IAITH GYNTAF CY3**
***(FIRST LANGUAGE)***

DEFNYDDIO'R IAITH A BARDDONIAETH

*(Arholiad Ysgrifenedig)*

A.M. DYDD IAU, 11 Ionawr 2007

(2 Awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch **ddau** gwestiwn - Adran A ac Adran B.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Mae angen i chi ysgrifennu Cymraeg da a chywir a chyflwyno'ch atebion yn drefnus.

Awgrymir eich bod yn treulio ¾ awr ar Adran A ac 1¼ awr ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni chaniateir defnyddio copïau o'r farddoniaeth na geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

*(a)* Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd: [5 × 2 = 10]

credai
y clywaf
gwyddwn i
nad ydy
ar bigau'r drain

*(b)* Mae **dau** wall ymhob un o'r brawddegau isod. **Lluniwch dair colofn**: yn y gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro. [10 × 2 = 20]

(i) Bydd y byd yn le gwell pe bai pawb yn gyfeillion.

(ii) Cyn penderfynu, ysgrifennodd i lawr y rhesymau os y dylai ymweld â'i ffrind ai peidio.

(iii) Cerddodd bob dydd i'r ysgol ar ben ei hun.

(iv) 'Mae ganddot ti llawer i'w ddysgu, fy machgen i,' meddai'r athro.

(v) Rwyf yn gwybod y gwelais y bechgyn yn wneud difrod i'r capel.

*(c)* (i) Cywirwch yr ymadroddion isod. [5]

(ii) Defnyddiwch y ffurfiau cywir mewn brawddegau, un ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd. [5]

y ddau o nhw
ef yn gwneud y gorau i ganolbwyntio
ei fod ef ddim
cyn gystal â
pobl a oeddent yn canu

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

*Wrth ateb, cofiwch*

- *ddefnyddio dyfyniadau a thermau beirniadaeth lenyddol;*
- *cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol.*

**Naill ai**

*(a)* Trafodwch **fyfyrdodau** Waldo Williams yn y gerdd 'Ar Weun Cas' Mael', T. H. Parry-Williams yn y gerdd 'Llyn y Gadair' a Gwyn Thomas yn y gerdd 'Croesi Traeth'. Wrth gymharu'r cerddi hyn dylech gyfeirio at y **themâu** a drafodir ynddynt ac at **arddull** y cerddi. [80]

**Neu**

*(b)* Trafodwch y **thema** sydd fwyaf perthnasol i chi yn y detholiad o gerddi. Dylech gyfeirio at **o leiaf dair cerdd a mwy nag un bardd**. Dylech ddangos pa mor debyg neu wahanol y mae'r beirdd yn **ymdrin â'r thema** rydych wedi ei dewis gan gyfeirio hefyd at **arddull** y beirdd yn y cerddi. [80]